**Y Sadwrn Sanctaidd – Cadw'r Pasg**

**Darllen Ioan 19:31–42; Marc 15:42–47**

**Myfyrdod**

Brysiodd aelodau'r dorf adref, o'r archoffeiriad at y person mwyaf di-nod, i orffen y paratoadau olaf ar gyfer cadw'r Pasg, fel crefyddwyr da. Erbyn hyn, roedd gwteri'r Deml yn rhedeg yn goch gyda gwaed yr ŵyn a laddwyd ar gyfer cadw'r Pasg. Ni sylweddolodd neb o'r dorf iddynt sefyll gydol Gwener y Groglith yn dystion o'r Bugail Da yn rhoi ei einioes drostynt fel Oen Duw yn cymryd ymaith bechodau'r byd.

'O'i gael ar ddull dyn, fe'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes' (Philipiaid 2:8).

***Ivor Thomas Rees***

**Gweddi**

Diolch a fo i ti, O Arglwydd Iesu Grist, am yr holl boenau a'r gwaradwyddiadau creulon a ddioddefaist drosom ni, am yr holl fendithion lu a enillaist i ni.

O sanctaidd Iesu, drugarocaf Iachawdwr, Cyfaill a Brawd, pâr i ni dy adnabod yn gliriach, dy garu'n anwylach, a'th ddilyn yn ffyddlonach. Amen.

***Risiart o Gaerfuddai***

**Coffau Enidwen Jones, Dôl-Nant, Heol y Beirdd, Pontgarreg**

Er bod Pasg yn y glasgoed – yn camu
Drwy'r cwm yn ysgafn droed,
Yr un yw galar henoed
Â galar llanc ieuanc oed.

I'th yrfa doed ei therfyn – drwy hir drai
Ac o drawiad sydyn:
Ni waeth gan yr hiraeth p'run,
'Run yw hawl yr hen elyn.

Diau yfory deuant – yn dylwyth
Hyd aelwyd y rhamant,
Ond heb Farged fe ddwedant
Mai dal yn wag mae Dôl-nant.

***Dic Jones***